# GWYRDD, TEG, A GOFALGAR

OXFAM CYMRU

Map Ffordd Ffeministaidd i Gymru

**ADRODDIAD CRYNO**



Gorffennaf 2025


## Diolchiadau

Ariannwyd y papur trafod hwn gan Oxfam Cymru a gwnaethpwyd y gwaith ymchwil a'r ysgrifennu gan Dr Alison Parken a'r Athro Sara MacBride-Stewart o Brifysgol Caerdydd. Cwblhawyd yr adolygiad o'r papur gan Sarah Rees (Pennaeth Oxfam Cymru) a Dr Hade Turkmen (Cynghorydd Polisi ac Eiriolaeth, Oxfam Cymru).

Hoffem ddiolch i'r holl gyfranwyr a rannodd eu hamser, eu mewnwelediad a'u harbenigedd wrth lunio'r gwaith hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os hoffech roi adborth ar y papur hwn, cysylltwch ag: oxfamcymru@oxfam.org.uk


## Am yr Awduron

### Dr Alison Parken

Mae Alison yn Uwch Gymrawd Ymchwil er Anrhydedd yn Ysgol Fusnes Caerdydd. Mae ei gwaith ymchwil a dadansoddi polisi yn cynnwys arwain y gwaith o ddatblygu Dyletswydd Cydraddoldeb Benodol unigryw Cymru ar 'wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau' a chreu model prif ffrydio cydraddoldeb er mwyn ymwreiddio dulliau croestoriadol o sicrhau cydraddoldeb mewn polisi cyhoeddus.

parkena@cardiff.ac.uk

### Yr Athro Sara MacBride-Stewart

Mae Sara yn academydd amlddisgyblaethol ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n ymdrin â meysydd lle mae tegwch, yr hinsawdd, ac iechyd yn gorgyffwrdd. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar atal a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n dod i'r amlwg mewn bywyd cymdeithasol, diwylliannol, ac economaidd. Mae'n arbenigo mewn dulliau cydweithredol, seiliedig ar le, sy'n hybu cyfiawnder amgylcheddol a chymdeithasol ac yn arwain at atebion y gellir eu rhoi ar waith.

macbride-stewarts@cardiff.ac.uk

# RHAGAIR

Yn Oxfam Cymru, credwn na ellir mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb heb edrych hefyd ar y frwydr i sicrhau cyfiawnder o ran rhywedd a'r hinsawdd. Ar hyd a lled y byd, y rhai sy'n cyfrannu leiaf tuag at yr argyfwng hinsawdd—menywod, pobl sy'n byw mewn tlodi, a chymunedau sydd wedi'u gwthio i'r cyrion oherwydd rhywedd, hil, dosbarth, anabledd, neu statws mewnfudo at ei gilydd—yw'r rhai sy'n dioddef fwyaf o effeithiau'r argyfwng. Dyna pam y mae strategaeth fyd-eang Oxfam yn ein hymrwymo i hybu dewisiadau eraill ffeministaidd a dad-drefedigaethol sy'n rhoi gofal am bobl a'r blaned wrth graidd trawsnewidiad economaidd.

Mae'r adroddiad hwn, *Bargen Newydd Werdd Ffeministaidd i Gymru*, yn cyfrannu tuag at y weledigaeth fyd-eang hon trwy ei gosod yn y cyd-destun Cymreig. Mae'n cydnabod bod cysylltiad cryf rhwng yr argyfwng economaidd a'r argyfwng hinsawdd fel canlyniadau annatod systemau annheg—patriarchaeth, neoryddfrydiaeth, ac economeg echdynnol—sy'n manteisio ar bobl ac yn diraddio'r amgylchedd. O fewn hyn, mae tanbrisio gwerth gofal—gofal â thâl a gofal di-dâl—yn dangos sut mae'r systemau hyn yn dibynnu ar fanteisio ac yn methu â chynnal sylfeini ein cymdeithasau. O ganlyniad, rhaid i **bontio teg** fod yn ffeministaidd: mynd at wraidd anghydraddoldeb, gweld gwerth gofal fel seilwaith cymdeithasol hanfodol, a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Mae'r papur trafod hwn, sy'n seiliedig ar y cyd-destun yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r momentwm tuag at economi lesiant, yn nodi cynigion ymarferol mewn pedwar prif faes—gofal cymdeithasol, gwaith, trafnidiaeth, ac ynni. Mae'r argymhellion hyn yn galw ar y llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, a chymdeithas sifil i weithredu heddiw er mwyn creu dyfodol tecach a gwyrddach.

Mae'r papur hwn yn darlunio economi sy'n gofalu am bobl a'r blaned: lle mae gofal yn cael ei gydnabod fel hawl ddynol a nwydd cyhoeddus, a lle mae penderfyniadau'n cael eu llywio nid gan elw byrdymor i'r ychydig ond gan lesiant hirdymor i bawb. Gobeithio y bydd yn ysgogi'r sgyrsiau hollbwysig a'r gweithredu gwleidyddol sydd ei angen er mwyn adeiladu Cymru decach, wyrddach, a mwy gofalgar—tra'n sefyll gyda'n gilydd i gefnogi ymdrechion byd-eang i sicrhau cyfiawnder yng ngwledydd De'r Byd a thu hwnt.

**Sarah Rees**
Pennaeth Oxfam Cymru

**"O ganlyniad, rhaid i bontio teg fod yn ffeministaidd: mynd at wraidd anghydraddoldeb, gweld gwerth gofal fel seilwaith cymdeithasol hanfodol, a sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl."**

# BETH YW BARGEN NEWYDD WERDD FFEMINISTAIDD?

Dechreuodd y cysyniad o fersiynau ffeministaidd o fargenion newydd gwyrdd yn Unol Daleithiau America a chafodd ei addasu i gyd-destun y DU gan y Grŵp Cyllideb Menywod (WBG), mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Amgylcheddol Menywod (WEN UK). Maent yn dadlau nad oes persbectif rhywedd mewn polisïau sy'n ein paratoi ar gyfer addasu i'r hinsawdd a lliniaru ei effeithiau. Maent hefyd yn dweud bod angen i sefydliadau llawr gwlad ar gyfer menywod ymgyrchu ar effeithiau newid hinsawdd ar fenywod, ond nad oes ganddynt y capasiti yn aml i wneud hyn.

Dechreuodd y cynigion ar gyfer newid trwy nodi atebion ar gyfer y fframweithiau gwleidyddol economaidd-gymdeithasol macro sy'n diffinio ein cyfnod (patriarchaeth, trefedigaethedd, globaleiddio). Mae'r rhain yn cynnwys creu economi lesiant, democrateiddio modelau perchnogaeth ynni, datgarboneiddio seilwaith ffisegol, ac aildrefnu'r economi fyd-eang o amgylch cyfiawnder hinsawdd.[1] Nodwyd bod prif ffrydio tystiolaeth o gydraddoldeb wrth ddatblygu polisi yn hanfodol.

Dilynwyd hyn gan gynigion polisi penodol, gan gynnwys: gweld gwir werth gwaith gofal â thâl a gofal di-dâl (atgynhyrchu cymdeithasol), hawl i gartref gweddus a fforddiadwy, trafnidiaeth integredig fforddiadwy, buddsoddiad yn yr economi gylchol, ac adeiladu system fwyd gynaliadwy.[2]

Wrth i ni agosáu at ddiwedd pandemig Covid-19 amlinellodd WBG a WEN bedair nod ynghyd â'r newidiadau yr oedd eu hangen mewn polisi cyhoeddus i gyrraedd 'Economi Werdd a Gofalgar'. Yn fwyaf penodol, ar y pryd, fel yr oedd llywodraeth Boris Johnson yn paratoi i fuddsoddi mewn 'prosiectau rhaw yn barod', daeth y WBG â'r dadleuon hyn i sylw'r cyhoedd yn bwerus trwy amcangyfrif y byddai:

> **… buddsoddiad GDP o 2% mewn gofal (e.e. gofal cymdeithasol, gofal plant, absenoldeb rhieni a lefel gofal) yn creu dwbl y nifer o swyddi i fenywod a bron cymaint i ddynion, â'r un buddsoddiad mewn adeiladu.[3]**

**"Wrth graidd bargen newydd werdd ffeministaidd mae economi sydd wedi'i threfnu o amgylch set wahanol o werthoedd."**



Wrth graidd bargen newydd werdd ffeministaidd mae economi sydd wedi'i threfnu o amgylch set wahanol o werthoedd.[4] Dylai pob polisi fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth o effeithiau rhyweddol a chroestoriadol darparu llafur gofal di-dâl nad yw'n cael ei gydnabod i'r economi bresennol. Ochr yn ochr â hyn, mae newid i economi lesiant yn golygu bod angen gweld gwerth pobl a'u gwaith, beth sy'n bwysig iddyn nhw ynglŷn â chynnal y byd naturiol, a dangosyddion economaidd sy'n cynnwys y mesurau hyn, tra'n cwestiynu pa mor ganolog yw 'twf economaidd' i ddatblygu polisi.

Gellid gosod bargen newydd werdd ffeministaidd yng Nghymru o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi rhoi economi lesiant wrth graidd dull gweithredu newydd yn ddiweddar.[5] Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer ymagwedd Llywodraeth Cymru at Bontio Teg. Yn 'An Equal and Just Transition to Net Zero', roeddem yn dadlau na fyddwn yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyrraedd ein targedau Sero Net heb fuddsoddiad sylweddol ac ymyriad sy'n arwain at 'Gymru fwy cyfartal', gan argymell:[6]

1. **Llythrennedd carbon i bawb** – i dynnu'r ofn allan o bolisïau addasu i'r hinsawdd
2. **Rhaglen Hinsawdd Genedlaethol (buddsoddiad a hyfforddiant)** – rhaglen genedlaethol o fuddsoddi mewn adnewyddu ac ôl-osod ac adeiladu sgiliau.
3. **Mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau presennol yn y gweithle** er mwyn rhoi sylw i rwystrau mynediad a chadw staff mewn diwydiannau datgarboneiddio – heb hyn gallai mentrau amrywiaeth fethu.
4. **Swyddi gofal fel swyddi gwyrdd** – yn cael eu gweld fel rhai sydd eu hangen ar gyfer dyfodol gwyrddach.
5. **Ailgynllunio swyddi** – bydd pob swydd yn newid, ailgynllunio rolau a hyfforddi ar gyfer gweithlu dyfodol cynaliadwy.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd gan Oxfam Cymru i adolygu gwendidau yn gysylltiedig â'r economi a'r hinsawdd mewn pedwar maes polisi yng Nghymru: Gofal Cymdeithasol, Gwaith, Trafnidiaeth ac Ynni, a'u polisïau Cymreig cyfredol cysylltiedig. Nid yw polisi ynni wedi'i ddatganoli'n llwyr, ac mae angen ystyriaeth bellach mewn meysydd cysylltiedig megis tai, iechyd, ac addysg.

Mae'r adroddiad llawn yn amlinellu'r dystiolaeth o anghydraddoldebau, dadansoddiad o'r polisi cyfredol, a chynigion ar gyfer newid er mwyn cyfeirio Cymru tuag at wireddu Bargen

Newydd Werdd Ffeministaidd, â pholisïau a dulliau gweithredu sy'n ceisio cydnabod a newid systemau gormesol a strwythurau pŵer sy'n cau pobl allan ac yn gwahaniaethu ar sail rhywedd, hil, dosbarth, anabledd, ac yn y blaen. Dadleuwyd ac ymhelaethwyd ar y cynigion hyn mewn trafodaeth â rhanddeiliaid a chânt eu trafod yn yr adroddiad llawn.[7] Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn nodi'r brif dystiolaeth ac yn cyflwyno tri phrif gynnig ym mhob maes polisi. Trwy gydol yr adroddiad, rydym yn pwysleisio'r niwtraliaeth barhaus o ran rhywedd a diffyg lens groestoriadol ehangach mewn polisi, sy'n arwain at atgynhyrchu anghydraddoldeb yn y naill genhedlaeth ar ôl y llall.

> **“Dadleuwyd ac ymhelaethwyd ar y cynigion hyn mewn trafodaeth â rhanddeiliaid a chânt eu trafod yn yr adroddiad llawn.”**

# GOFAL CYMDEITHASOL




"Bydd newid hinsawdd yn rhoi pwysau ar systemau gofal sydd eu hangen er mwyn cynnal llesiant a chydlyniant cymdeithasol, trwy effeithio ar weithwyr gofal cyflogedig sydd eisoes yn agored i niwed a chynyddu'r galw am y gwasanaethau hyn."

## ANGHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU A'R POLISÏAU PRESENNOL

Mae system ofal ddiogel a chynaliadwy yn hanfodol ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd. Bydd newid hinsawdd yn rhoi pwysau ar systemau gofal sydd eu hangen er mwyn cynnal llesiant a chydlyniant cymdeithasol, trwy effeithio ar weithwyr gofal cyflogedig sydd eisoes yn agored i niwed a chynyddu'r galw am y gwasanaethau hyn. Mae dealltwriaeth gynhwysfawr o'r system iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys rôl menywod fel gofalwyr di-dâl i blant ac oedolion, ac fel gweithwyr medrus yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg.[8] Ond er bod systemau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn ddefnyddiol er mwyn adnabod anghenion gofalwyr, mae'r papur hwn yn edrych ar ofal cymdeithasol yn unig yn hytrach na gofal plant. Yn fwyaf arbennig, mae gofalwyr di-dâl hefyd yn debygol o

fod angen gwasanaethau gofal iechyd yn fwy oherwydd bod eu hiechyd hunangofnodedig yn aml yn wael.[9] Mae lleihau effeithiau newid hinsawdd, gan gynnwys allyriadau o drafnidiaeth ar gyfer gofal cartref, yn heriol gan fod maint y gweithlu'n cynyddu er mwyn mynd i'r afael â '*thagfeydd*', o ganlyniad i danariannu cronig a phrinder staff.[10] Wrth i nifer y bobl sydd dros 70 oed yng Nghymru barhau i dyfu, tyfu hefyd fydd y galw am ddarpariaeth gofal ffurfiol a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gofal anffurfiol.[11]

## CYNIGION POLISI

### Cynnig 1.



**Tynnu'r elw allan o ofal/buddsoddiad cymdeithasol.** Nid yw dibyniaeth gynyddol ar lafur gofal di-dâl i lenwi'r bylchau mewn darpariaeth gyhoeddus yn gynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd tuag at dynnu'r elw allan o wasanaethau plant sy'n derbyn gofal.[12] Dylai'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r polisi hwn gael eu trawsosod i ystyried nodau tebyg ar gyfer gofal cymdeithasol.

Dylid ystyried mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol gweithwyr cyfberchnogaeth ochr yn ochr ag argymhellion y Fforwm Gofal Cymdeithasol a Phartneriaeth Gymdeithasol, y dylid ailfuddsoddi elw o ofal cymdeithasol mewn gofal cymdeithasol, o fewn model budd i'r gymuned. Gallai'r cynigion hyn gael eu cefnogi gan bolisi datganoledig a fframwaith caffael moesol Llywodraeth Cymru.

### Cynnig 2.




**Talu gofal yn well.** Mae astudiaethau achos yn yr Almaen, lle mae tâl gweithwyr gofal wedi'i gynyddu a chyfraniadau preswylwyr cartrefi gofal wedi'u lleihau, a dadansoddiad o'r 'cyflog byw' yn yr Alban, yn dangos bod yn rhaid mynd i'r afael ag ymdrechion i gynyddu tâl trwy ddiwygiadau cyflog deddfwriaethol 'caled'.[13] Mae tystiolaeth o'r Alban yn dangos canlyniadau anfwriadol 'diwygio meddal', h.y. gall cynhwysiant dewisol hefyd olygu bod cyrff gofal preifat yn gadael y system ofal. Dylai talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn gofal cymdeithasol fod yn orfodol, a dylid ymdrechu i gynyddu oriau gwaith rheolaidd mewn contractau cyflogaeth diogel.

### Cynnig 3.



**Canoli 'Diogelwch Gofal'.** Rhaid i ddiogelu a chynnal diogelwch gofal[14] gael yr un statws â mesurau o'r fath ar gyfer diogelwch bwyd. Bydd hyn yn cynnwys mesurau dan gynigion 1 a 2 a sicrhau diogelwch a chydnabyddiaeth i weithwyr mudol yn y gweithlu gofal. Dylid ehangu buddsoddiad mewn hyfforddiant a chyfleoedd i symud ymlaen mewn swydd i'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru hefyd.

# GWAITH





> **Heb ymyriadau, gall pontio economaidd wneud anghydraddoldebau presennol yn y farchnad lafur yn waeth."**

## ANGHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU A'R POLISÏAU PRESENNOL

Mae bargen newydd werdd ffeministaidd yn ystyried menywod a gwaith mewn dwy ffordd – ailedrych ar werth gofal cymdeithasol fel seilwaith cymdeithasol (ychwanegu ei werth at werth ychwanegol gros (GVA), tra'n canolbwyntio hefyd ar newidiadau i economi les), a sicrhau nad yw menywod yn colli cyfleoedd i gael sgiliau, cyflogaeth ddiogel a symud ymlaen mewn marchnad lafur sy'n newid (sectorau a galwedigaethau yn cyflwyno deallusrwydd artiffisial a digideiddio, ac mewn prosesau datgarboneiddio). Menywod yw 7.9% o'r gweithwyr Amaethyddol, 24.2% o'r gweithwyr Ynni, 18% o'r gweithwyr Adeiladu, 22% o'r gweithwyr Trafnidiaeth, 29.9% o'r gweithwyr Cyflenwi dŵr a gwastraff ac ati, a 25% o'r gweithwyr TGCh.[15]

**CANRAN O WEITHWYR YN ÔL SECTOR**




Ffynhonnell: WEN Cymru (2024) Cerdyn Sgôr Ffeministaidd

Heb ymyriadau, gall pontio economaidd wneud anghydraddoldebau presennol yn y farchnad lafur yn waeth.[16] Mae ein hadolygiad o bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyflogadwyedd, economi wyrddach decach, cenhadaeth economaidd, sgiliau ar gyfer Sero Net, Pontio Teg, yn dangos bod rhai yn trafod mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhywedd, ethnigrwydd, anabledd ac economaidd-gymdeithasol, ond nad ydynt yn cynnwys camau gweithredu a mesurau canlyniadau penodol. Er enghraifft, sut fyddwn ni'n gwybod canlyniadau bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i 'sicrhau cydraddoldeb i grwpiau a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan y pontio'? [17] Sut fyddwn ni'n gwybod os yw cyflawni'r cynllun gweithredu sgiliau Sero Net wedi cynyddu nifer y menywod sydd â Chyfrifon Dysgu Personol Gwyrdd mewn sectorau datgarboneiddio?

## CYNIGION POLISI

### Cynnig 1.

**Tystiolaeth. Deall beth sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â gwahanu ar sail rhywedd.** Mae Adroddiad Llesiant Llywodraeth Cymru (2024), adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'A yw Cymru'n Decach?' (2023) ac adroddiadau gan gyrff anllywodraethol, fel y Feminist Scorecard (WEN Cymru, 2024), yn darparu trosolwg gwerthfawr o gyflogaeth menywod ond mae angen dadansoddiad croestoriadol mewnol o ba fenywod sy'n gweithio ym mhle, a dan ba amodau yng Nghymru.[18]



Fodd bynnag, mae mynd i'r afael â gwahanu ar sail rhywedd yn anodd ac mae angen camau wedi'u cydlynu yn yr hirdymor. Mae angen data cyfredol i ddarparu persbectif seiliedig ar rywedd fel sail i bolisi a chefnogi colegau AB ac AU a sefydliadau datgarboneiddio i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail rhywedd a segmentu yn eu gwaith a thrwy eu gwaith. (Mae llawer ohonynt yn cydnabod na fyddant yn cael y sgiliau sydd eu hangen heb fwy o amrywiaeth. Gweler y Grid Cenedlaethol 2020, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu, CITB,2021).[19]

Dylai'r adolygiad gynnwys dadansoddiad buddiolwyr rhywedd o raglenni addysg, hyfforddiant ac uwchsgilio (cyfrifon dysgu personol gwyrdd, rhaglenni galwedigaethol Addysg Bellach a phrentisiaethau ac ati). Mae angen archwiliad manwl o effaith amodau gwaith gwaelach (gwaith dros dro, cyfnod penodol, dim oriau a gweithio i asiantaeth), cyflog byw gwirioneddol, a dadansoddiad o'r bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn ôl sector, a galwedigaeth, a lefel. Dylai'r adolygiad amlinellu camau ar gyfer prif ffrydio cydraddoldeb a chamau gweithredu cadarnhaol.

## Cynnig 2.



**Dyletswyddau bwlch rhwng cyflogau ar gyfer ethnigrwydd ac anabledd.** Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer anabledd yn llai yn y sector cyhoeddus nag yn y sector preifat, ond mae tystiolaeth yn awgrymu bod 'nenfwd wydr' yn bodoli o hyd yn y sector cyhoeddus.[20] Mae'r bwlch cyflog ar gyfer ethnigrwydd yn cynyddu yng Nghymru.[21] Mae dileu'r bylchau hyn, a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, erbyn 2050 yn un o Gerrig Milltir Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (rhif 17).[22] Dylid datblygu Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol i Gymru ar gyfer cyflogaeth ethnigrwydd ac anabledd a dadansoddi cyflogau, gan ddilyn y ddyletswydd unigryw ar 'wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau' ar gyfer Cymru.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb Benodol unigryw Cymru ar 'wahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau' yn nodi ei bod yn ofynnol i bob cyflogwr sector cyhoeddus gynhyrchu dadansoddiad cyfunol o alwedigaethau, graddau, mathau o gontractau, oriau gwaith a chyflog yn ôl rhywedd. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos y ffactorau sy'n achosi anghydraddoldebau cyflog, ac mae angen cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd y cyflogwr yn mynd i'r afael â'r rhain.

Mae angen ystyried gwersi a ddysgwyd o weithredu'r ddyletswydd hon a'r argymhellion ar gyfer ei gwella, wrth i ni drafod dyletswyddau bylchau cyflog newydd Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru ar gyfer ethnigrwydd ac anabledd, ac wrth i lywodraeth y DU ymgynghori ynglŷn â rheoliadau o'r fath ar sail yr adroddiadau presennol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (postio bylchau cyflog a bonws cymedrig a chanolig, a chwarteli gweithwyr yn y porth bwlch cyflog rhwng y rhywiau).[23] Rhaid i ni wylio nad ydym yn glastwreiddio ein Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol presennol yng Nghymru. Mae angen i gydweithio rhwng llunwyr polisïau'r llywodraeth, cyrff anllywodraethol ac academyddion ddechrau ar

unwaith, er mwyn sicrhau bod dyletswyddau newydd yn nodi gofynion data ar gyfer deall y ffactorau sy'n achosi anghydraddoldeb, ac ar gyfer cynlluniau gweithredu ac adroddiadau blynyddol.

## Cynnig 3.

**Adeiladu Cynghrair.** Ar y cyd â'r undebau llafur, adfywio'r gynghrair o grwpiau menywod, asiantaethau statudol a swyddogion y llywodraeth a arweiniodd yr 'ymgyrchoedd Cau'r Bwlch Cyflog' ar y cyd.[24] Bydd angen i'r gynghrair newydd gael pwyslais croestoriadol o'r dechrau un a bydd yn gweithio er mwyn gwella amodau gwaith wrth bontio i Sero Net:

- sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio wrth sefydlu hawliau cyflogaeth newydd dan Fil Hawliau Cyflogaeth 2024,
- cefnogi'r gwaith o weithredu'r dyletswyddau bwlch cyflog ethnigrwydd ac anabledd newydd, cefnogi eu nod o fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol yn ôl swydd, gradd, patrwm gweithio a math o gontract,
- hyrwyddo patrymau gweithio hyblyg a hybrid (monitro eu hargaeledd a'u heffaith ar symud ymlaen mewn gyrfa),
- cryfhau'r ymgyrch dros y Cyflog Byw Gwirioneddol,
- monitro canlyniadau cydraddoldeb cynlluniau cyflogaeth a sgiliau Llywodraeth Cymru.

# TRAFNIDIAETH





> Mae menywod yn fwy tebygol o gerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus."

## ANGHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU A'R POLISÏAU PRESENNOL

Mae grŵp incwm y 10% uchaf yn defnyddio 45% o'r ynni a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth tir, a 75% ar gyfer aer (Hefferman et al 2021).[25] Mae anghydraddoldebau mewn defnydd, allyriadau, llygredd a chynllunio yn gwneud trafnidiaeth yn safle ar gyfer atgynhyrchu gwahaniaethu a hiliaeth.[26]

Mae menywod yn fwy tebygol o gerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a dangosir bod ganddynt ddulliau teithio mwy cynaliadwy neu wyrdd, ac yn aml iawn bod eu teithiau yn fyrrach ac yn wyrddach (Heidegger et al 2021).[27]

**MAE GRŴP INCWM Y 10%...**



**...uchaf yn defnyddio 45% o'r ynni a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth tir, a 75% ar gyfer aer.**

Ffynhonnell: A feminist European green deal (2021). *Towards an Ecological and Gender Just Transition*.

Yr un pryd, nid yw systemau teithio yn rhywedd-niwtral ac mae menywod yn cael eu siomi o ran eu hanghenion teithio a diogelwch gan fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddwyr teithio preifat, â systemau teithio cyhoeddus yn aml yn cael eu modelu ar deithiau uniongyrchol dynion i'r gwaith.

Mae *Llwybr Newydd*, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2021) yn cynnwys blaenoriaethau penodol ar gyfer: 1. Lleihau'r angen i deithio, 2. Newid i deithio mwy cynaliadwy a 3. Lleihau cymhellion a rhwystrau sy'n atal teithio cynaliadwy.[28] Mae'r cynllun hwn yn ceisio bod yn deg wrth sicrhau llesiant trwy hygyrchedd. Mae'n ymrwymo Cymru i sicrhau'r arferion gorau o ran safonau dylunio, hyfforddi a gwasanaethau yn unol â dyletswyddau cydraddoldeb, iaith a hawliau dynol a amlinellwyd mewn strategaethau llesiant, trafnidiaeth ac anabledd.[29] Fodd bynnag, nid yw'r un o'r camau gweithredu a'r mesurau hyn yn rhywedd-benodol.

## CYNIGION POLISI

### Cynnig 1.



**Gwneud teithio llesol yn ddiogel ac yn hygyrch** trwy ddiweddaru strategaethau diogelwch ffyrdd, sicrhau bod ffyrdd, llwybrau beicio, a llwybrau cerdded yn dod yn fwy atyniadol i gerdded, mynd ar olwynion a beicio. Gallai beiciau hygyrch yn cael eu gwasanaethau'n llawn, gan gynnwys e-feiciau, wneud gwahaniaeth go iawn i deithio llesol, lle mae llwybrau'n cael eu cynllunio gan ystyried y lleoedd y mae ar fenywod eisiau ac angen teithio iddynt. Yn lle bod cynllunwyr yn asesu'r teithiau y gallai menywod eu gwneud, mae'n hanfodol nad yw diogelwch yn rhywbeth sy'n cael ei 'wneud i'r' grwpiau hyn. Rhaid cynnwys menywod, ar sail groestoriadol, yn y gwaith o gydgynllunio teithio a thrafnidiaeth lesol, ac atebion caffael a digidol perthnasol.

## Cynnig 2.



**Integreiddio Teithio Llesol ar draws polisïau** gan gysylltu ecosystem polisïau iechyd, trafnidiaeth, cynllunio a hinsawdd, ac ymestyn i bolisïau sy'n ymwneud â dyrannu asedau cyhoeddus, adnoddau economaidd, a rheoliadau diogelwch ac amgylcheddol. Mae cynlluniau teithio llesol wedi'u hadeiladu ar y rhagdybiaeth eu bod yn gwella iechyd pobl a'r amgylchedd ac yn lleihau costau i wasanaethau cymdeithasol, yn ogystal ag amgylcheddol. Mae ar gynlluniau seilwaith sy'n cynnwys teithio i wasanaethau cyhoeddus allweddol fel ysbytai ac ysgolion angen mewnbwn gan ddull polisi integredig sydd hefyd yn cael ei gyd-greu o ddifri gyda chymunedau.

## Cynnig 3.




**Mynd i'r afael â phroblemau trafnidiaeth wledig Cymru** trwy ymgorffori data wedi'u dadgyfuno ar anghenion trafnidiaeth wledig menywod mewn strategaethau trafnidiaeth i Gymru. Mae hyn yn cynnwys opsiynau teithio diogel a hygyrch trwy gydol y dydd (ag addasiadau tymhorol), ystyried amseroedd siwrneiau, archwilio anghydraddoldebau gwledig a sut mae'r rhain yn sail i ddylunio cynlluniau trafnidiaeth. Mae trafnidiaeth gymunedol wedi esblygu i fynd i'r afael ag anghenion yng Nghymru wledig (yn ogystal ag anghenion cymunedau anabl) ond mae'r rhain yn systemau sy'n mynd i'r afael â'r bwlch yn y ddarpariaeth bresennol. Mae gan grwpiau a chymunedau sydd dan anfantais rôl i'w chwarae er mwyn adnabod anghenion cefnogaeth a chydgynllunio strategaeth drafnidiaeth Cymru.

# YNNI



> STEM Women yn rhagweld mai dim ond 25% o'r 'swyddi gwyrdd' fydd yn cael eu dal gan fenywod erbyn 2030."



## ANGHYDRADDOLDEB RHWNG Y RHYWIAU A'R POLISÏAU PRESENNOL

Pan mae arian yn brin mewn cartrefi incwm isel yng Nghymru, ar ôl torri'n ôl ar dripiau, dillad a phethau ymolchi, mae menywod yn troi'r gwres i lawr neu i ffwrdd.[30] Mae tlodi incwm yn effeithio'n fwyaf arbennig ar rieni unigol, 86.4% ohonynt yn fenywod,[31] (ONS, 2021), ac mae cartrefi ag unigolyn anabl yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm.[32]

Mae diwydiant a masnach yn cydnabod na fydd y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer trawsnewid i ynni adnewyddadwy ar gael oni bai fod demograffeg draddodiadol gweithwyr ynni yn cael ei hamrywio.

Fodd bynnag, mae 'bwlch amrywiaeth ynni' yn amlwg yn barod yn y diwydiant ynni adnewyddadwy, ac mae STEM Women yn rhagweld mai dim ond 25% o'r 'swyddi gwyrdd' fydd yn cael eu dal gan fenywod erbyn 2030.[33]

Gall prosiectau sy'n eiddo i'r gymuned, ac sydd â buddion diffiniedig, ddarparu cefnogaeth fawr ei hangen i asedau a gwasanaethau cymunedol, a lleihau costau tanwydd. Yn ogystal, gellid buddsoddi mewn ôl-osod er mwyn lleihau'r galw am ynni i ddeiliaid cartrefi/tenantiaid nad ydynt yn gallu fforddio inswleiddio neu drosglwyddo i ffynonellau ynni adnewyddadwy (gweler, er enghraifft, Swansea Community Energy).[34] Mae hwn yn faes lle gallai menywod arwain mewn chwyldro ynni gwyrdd ond mae problemau polisi i'w goresgyn.

Fodd bynnag, yn ein cyfarfodydd rhanddeiliaid, clywsom fod y polisïau ynni a chynllunio presennol yn atal datblygu prosiectau cymunedol. Nid yw gosod prosiectau mawr iawn yn cynnwys y Sector Ynni Cymunedol, ac mae'n ymddangos nad yw modelau cydweithio a rhanberchnogaeth yn atyniadol i gynhyrchwyr mawr. Mae'r Rhwydwaith Dysgu Ynni Cymunedol (ELN) yn dadlau bod cydweithrediadau sy'n cael eu gwireddu'n llawn yn meddu ar y potensial i ddarparu buddion cyfranogol, fel nad yw cymunedau yn teimlo bod pethau'n cael eu 'gwneud iddyn nhw' a'u bod felly'n gwrthwynebu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd.[35]

Gallai bargen newydd werdd ffeministaidd gefnogi mwy o annibyniaeth economaidd i fenywod trwy fod yn rhan o fodelau rhanberchnogaeth a sicrhau bod ganddynt rôl i'w chwarae wrth benderfynu ble i ailfuddsoddi buddion cymunedol – mewn sgiliau, cadwyni cyflenwi, ac i gefnogi ôl-osod er mwyn lleihau tlodi tanwydd trwy leihau'r galw.

## CYNIGION POLISI

### Cynnig 1.

**Buddion cymunedol diffiniedig a modelau rhanberchnogaeth gorfodol ar gyfer ynni adnewyddadwy newydd.** Rydym yn ategu galwadau a wnaethpwyd yn adolygiad Ynni Cymunedol Cymru (2024) ac adroddiad Her Sero Net 2035 ar ynni, y dylai pawb allu bod yn rhanddeiliaid mewn prosiectau ynni newydd, ac y dylai Buddion Cymunedol Diffiniedig gael eu rhoi ar sylfaen statudol â chyfarwyddyd clir y bydd arian dros ben yn cael ei ailfuddsoddi gan y gymuned ôl-osod, uwchsgilio cymunedol ar gyfer cyflogaeth, trafnidiaeth gymunedol, mathau eraill o addasiadau i'r hinsawdd a mesurau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.[36]



## Cynnig 2.



**Camau Gweithredu Cadarnhaol** Mae mynediad at hyfforddiant/ailhyfforddi yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar weithlu sydd eisoes yn fedrus mewn diwydiannau ynni traddodiadol sy'n dirywio – gan gynyddu anghydraddoldebau.[37] Er mwyn mynd i'r afael â gwahanu ar sail rhywedd, gan gynnwys mynd i'r afael â 'ffactor oeri' aflonyddu rhywiol, mae angen buddsoddiad sylweddol i annog menywod amrywiol i ddod i mewn i'r sectorau ynni glân. Mae astudiaethau achos i'w gweld yn yr adroddiad llawn. Dylid cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer hyfforddiant menywod yn unig fel cam gweithredu cadarnhaol mewn addysg bellach.

## Cynnig 3.



**Diwylliannau Gweithle** Heb ymyriad, gallai cwmnïau ynni gwyrdd atgynhyrchu diwylliannau a strwythurau gweithle traddodiadol sy'n canolbwyntio ar ddynion, a fydd yn cryfhau anghydraddoldeb. Mae'n bosibl na fydd darparu mynediad i fenywod neu grwpiau sydd ar y cyrion at hyfforddiant neu gyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd ar gyfer swyddi Sero Net yn ddigon – mae angen rhaglen benodedig i sicrhau newid diwylliannol yn y gweithle. Mae rôl y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol (2022) yn hanfodol, gan weithio ochr yn ochr â'r Contract Economaidd i sicrhau bod recriwtio yn cael ei gefnogi gan fuddsoddiad mewn cynlluniau cadw staff mewn gweithleoedd.

# CASGLIAD

Mae'r crynodeb hwn yn dangos sut mae llunio polisïau yn gyffredinol, a pholisïau hinsawdd yn fwyaf arbennig, yn rhoi ystyriaeth annigonol i anghydraddoldebau rhywedd wrth gynllunio polisïau. Mae angen persbectif rhywedd croestoriadol wrth eu datblygu, er mwyn sicrhau nad yw addasu i'r hinsawdd a lliniaru effeithiau yn atgyfnerthu'r anghydraddoldebau presennol, a hefyd fel bod modd hybu cydraddoldeb rhwng y rhywiau trwy bolisïau o'r fath.

Mae'r crynodeb hwn yn cynnig cynigion amrywiol ar gyfer ystyriaeth bellach. Mae'r dystiolaeth sylfaenol, adolygiadau polisi a'r sail resymegol dros yr argymhellion i'w gweld yn yr adroddiad llawn, y gobeithiwn y bydd yn adnodd defnyddiol ar gyfer yr ystyriaeth barhaus o fargen newydd werdd ffeministaidd i Gymru.

> **Mae llunio polisïau yn gyffredinol, a pholisïau hinsawdd yn fwyaf arbennig, yn rhoi ystyriaeth annigonol i anghydraddoldebau rhywedd wrth gynllunio polisïau."**

## NODIADAU


1 Cohen a MacGregor (2020) Towards a Feminist Green New Deal for the UK, Cohen a Macgregor (2021) Draft-Roadmap Feminist Green New Deal

2 Women's Budget Group a Women's Environmental Network (2022) A Green and Caring Economy

3 WEN (2022) What is a Feminist Green New Deal?

4 IWA (2024) A Wales that cares for people and planet, mewn partneriaeth ag Oxfam Cymru

5 Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2025) Strategaeth

6 Parken et al (2022) An Equal and Just Transition

7 Parken a MacBride-Stewart (2025) Gwyrdd, Teg, a Gofalgar: Map Ffordd Ffeministaidd i Gymru, adroddiad ymchwil i Oxfam Cymru

8 Cohen a MacGregor (2020) Towards a Feminist Green New Deal for the UK

9 ONS (2021) General health, England and Wales: Census 2021

10 Care Quality Commission (2022) Gridlocked care – Care Quality Commission

11 Strange, W., Jones, P., Kikuchi, l., Garcia (2023) The chasm of care: the capacity challenge of the next decade – The Autonomy Institute

12 Llywodraeth Cymru (2023) Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

13 Auth, D. a Peukert, A. (2022). Gender equality in the field of care: Policy goals and outcomes during the Merkel era, Cunningham, I., James, P., Baluch, A., a Cullen, A. M. (2023). Networks: Explaining Unintended Outcomes in the Implementation of the Scottish Living Wage Policy

14 Mae diogelwch gofal yn cyfeirio at y sicrwydd bod systemau gofal – yn cynnwys gwaith cyflogedig a gwaith di-dâl – yn gynaliadwy, yn wydn, ac yn gallu diwallu anghenion y presennol ac anghenion y dyfodol, hyd yn oed wrth wynebu siociau cymdeithasol, economaidd, neu amgylcheddol.

15 WEN Wales (2024) Feminist Scorecard

16 Brynjolfsson a McAfee (2014) The Second Machine Age

17 Llywodraeth Cymru (2024) Ymgynghoriad Fframwaith Pontio Teg a'r Sgwrs ar yr Hinsawdd, Alma Economics

18 Llywodraeth Cymru (2024) Adroddiad Llesiant Cymru, EHRC (2023) Equality and Human Rights Monitor, WEN Wales (2024) Feminist Scorecard

19 National Grid (2020) Building the Net Zero Energy Workforce, CITB (2021) Building Skills for Net Zero

20 Jones (2024) The Disability Pay Gap in the UK: What is the role of the Public Sector?

21 Llywodraeth Cymru (2024) Adroddiad Llesiant Cymru

22 https://www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-dangosyddion-cenedlaethol-2021-html

23 Parken (2022) Addressing Pay Inequalities in Wales: Past, Present and Future

24 Fitzgerald (2007) Close the pay gap campaigns evaluation report, Minto a Parken (2021) The European Union and Regional Gender Equality Agendas: Wales in shadow of Brexit

25 Heffernan, R., Heidegger, P., Köhler, G., Stock, A., ac Wiese, K. (2021) A feminist European green deal: Towards an Ecological and Gender Just Transition

26 Gore et al. (2021) Sustainable and inclusive transport systems: Gender and mobility – IEEP AISBL

27 ibid.

28 Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 – LLYW.CYMRU

29 Ibid. t.19.

30 Sefydliad Bevan (2019) Yn Gaeth: Tlodi Ymhlith Menywod yng Nghymru Heddiw, adroddiad i Chwarae Teg a Llywodraeth Cymru

31 ONS (2021) General health, England and Wales: Census 2021

32 Llywodraeth Cymru (2024) Adroddiad Llesiant Cymru

33 Pearl-Martinez a Stephens (2017) Towards a gender diverse workforce in the renewable energy transition, Stem Women (2024) Women in STEM statistics

34 Swansea Community Energy (dim dyddiad)

35 Energy Learning Network (2025) Community Energy in Action

36 Ynni Cymunedol Cymru (2024) Dyfodol Gwell i Ynni yng Nghymru, Adroddiad Her Sero Net (2024) Sut gall Cymru ddiwallu anghenion ynni a dileu tanwydd ffosil erbyn 2035?

37 Llywodraeth Cymru (2024) Rhaglen Sgiliau Hyblyg

OXFAM
CYMRU